191

DUW GADWO Y FRENHINES

# YMWELIAD
# Y FRENHINES
# A'R
# PENRHYN,

Hydref 15, 1859.

*Cenir ar y dôn " Glan Meddwdod Mwyn."*

Holl wyr Mon ac Arfon, hyfrydlon o fryd,
Gwrandewch fyr adroddiad, ar ganiad i gyd :—
Fe ddaeth ein Brenhines, Arglwyddes deg lon,
A'i theulu i'r PENRHYN, mewn bri mawr ger bron,
'Rwyf fi, 'r anysgedig, am gynyg o'm gwaith
Benillion, pan allaf ni fyddaf yn faith,
Ond parch i chwi o galon yn ffyddlon yw'r ffaith.

BYRDWN.

*VICTORIA* 'r Frenhines, Arglwyddes ein gwlad,
A'i theulu Brenhinol, mewn siriol lesâd,
Gaent barch Gogledd Cymru mor heini, a mawrhâd.

Hwy deithient o Scotland mewn llwyddiant mwyn llon,
Ar hyd cydiad cadarn y ffordd haiarn hon;
Heb gymhorth un ceffyl ar gyfyl y gwaith,
Ond Peiriant Angerddol, odiaethol i'r daith:
Caent weled hawddgarwch, hyfrydwch y fro,
A phont fawr ar Gonwy, heb un drysni ar dro,
A'r *Tunnells* mawreddus, rhai campus, bydd co'
Victoria'r Frenhines, &c.

Dyrchafwyd baneran bob lliwiau mor llawn,
Llyth'renau aur siriol rhagorol a gawn,
A phontydd godidog mor enwog a roed,
Rhosynau a blodau pob cangau o'r coed;
Ymgasglodd bon'ddigion yn llon o bob lle,
Mor liwdeg a'r *Ladies*, mor drefnus i'r dre';
Bu'n amser pur brysur ar wyr y *Railway*.
Victoria'r Frenhines, &c.

Rhoed plant yr Ysgolion mor hoywlon a hardd,
Mor drefnus a blodau teg raddau yr ardd;
Pawb mewn gwisgoedd gwychion, ger bron heb ddim
Prin gall'sai neb gredu fod tlodi'n y wlad; [brad,
Rhwng *Cannons* a'u cynwr' bu fwstwr pur fawr,
A'r *Bands* a wnaent chwarau i fynu ac i lawr;
Pob parch i dre Bangor, gawn enwi yn awr.
Victoria'r Frenhines, &c.

Gwnaed pob peth yn drefnus a gweddus y gwaith,
O barch i'r Frenhines ar ben ei hir daith;
Bon'ddigion urddasol, hyfrydol o fri,
Anerchent Victoria a'i holl deulu hi,
Dangosai'r trigolion o galon i gyd,
Drwy roddi arwyddion ger bron hyn o bryd,
HWRE! hyd yr awyr iawn frodyr un fryd!!
Victoria'r Frenhines, &c.

X705 S52.2X

193



Dyrchafwyd banerau y llongau yn llu,
Beaumaris a Bangor rhyw fawrfri a fu,
Ymgasglodd y bobloedd yn lluoedd mor llawn,
I'r dref, nes yr ydoedd yn hwyr y prydnawn;
Fe gauwyd y Siopau heb amau bob un,
A'r troliau ataliwyd yn llwyr o bob llun,
Er mwyn cael iawn osteg yn deg i bob dyn.
Victoria'r Frenhines, &c.

Ymgasglodd hoff lanciau a merched pob man,
Pawb am gariad newydd yn rhwydd idd eu rhan;
A'r llanciau a *dretia*'u cariadau yn rhes,
Gwnai hyn i Dafarnwyr gryn lawer o les;
Ar ol gwaith y ddiod gresyndod y swyn,
Ni wiw cadw twrw ar y Cwrw a gwneyd cwyn,
I'r sawl gymer ormod ar Lân Medd'dod Mwyn.
Victoria'r Frenhines, &c.

'Nol gwel'd y Frenhines medd Catrin Ty Croes,
Ni welais un wraig mor ddifalch yn fy oes;
Chwi ferched cyffredin mawr g'wilydd i chwi,
Fod am wisgo'n brafiach a harddach na hi!
Gwyn fyd pe gwnai dynu y *duty* oddiar *De*,
A'i roddi ar wisgiad drud merched y Dre',
*Crinolines*, *Artificials* sy'n llenwi pob lle,
Victoria'r Frenhines, &c.

Aiff i weled y Chwarel heb gêl yn ein gwydd,
Pob parch fo i'r Chwarelwyr da 'u synwyr bob swydd,
Fe fu Castell Penrhyn yn glws gartref clyd
Victoria a'i theulu yn braf hyny o bryd
A gweled Caergybi mewn bri gaffo'n braf,
Ac agor Great Eastern fel gwen haulwen hâf,
Eich clod dros holl Frydain yn gydsain a gâf.
Victoria'r Frenhines, &c.

Pob bendith ar Gymru fo i ffynu heb ffael,
Heb ryfel na thwrw na drud chwerw draul;
Gwyr tirion Victoria fo bena' bob awr,
Yn cadw pob hyllion elynion i lawr;
I'r *Prince of Wales* hefyd boed hyfryd ein ton,
A hil Owain Tudur Plas Penmynydd, Mon,
Sydd drwy waed brenhinol er's oesoedd mae son,
Victoria'r Frenhines, &c.

Dymunwn bawb iechyd a hefyd oes hir
I'r teulu Brenhinol odiaethol ar dir,
Enynwn goelcerthau ar fryniau y fro,
Goleuwn ffenestri fel Cymry er co',
Bu Sior y Pedwerydd mewn llwydd yma'n llon,
Wrth fyned i'r 'Werddon yn dirion dros don,
Mwy parch i Victoria a hwylia'r waith hon.
Victoria'r Frenhines. &c.

OWAIN GRIFFITH, Bala,
(YWAIN MEIRION.)

DIWEDD.